| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **28 Gorffennaf 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Hugh Irving / Phil Gilroy** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **John Sweeney / Stephen Convill** |
| **Teitl:** | **Gweithredu Deddf Tai Cymru 2014** |

---

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

   Mae hwn yn adroddiad dilynol i'r un a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 27 Chwefror 2015 (Atodiad A).

   Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd ar 27 Chwefror 2015 yn ymwneud â bwriad Llywodraeth Cymru i ddod â'r prawf digartrefedd bwriadol i ben fesul cam erbyn mis Ebrill 2019 a disgresiwn a roddir i gynghorau, o fewn paramedrau graddfa amser benodol, i gadw'r "prawf" yn rhannol neu'n llawn tan hynny.

   Cymeradwywyd yr argymhelliad i gadw'r "prawf" yn llawn tan fis Ebrill 2019. Fodd bynnag, yn fuan ar ôl hynny rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i ni am newid yn yr amserlen ond ni roddwyd manylion y paramedrau.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

   Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr amserlen ddiwygiedig a'r camau gweithredu i sicrhau ein bod yn cadw ati.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

   Argymhellir bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi a bod yr Aelodau'n cadarnhau eu penderfyniad gwreiddiol i gadw'r prawf "bwriad" yn llawn.

4. **Manylion yr Adroddiad**

   Y rheswm dros y diwygiad yn yr amserlen a ragnodwyd yw oedi ar ran Llywodraeth Cymru wrth derfynu a chyhoeddi'r Cod Canllawiau ar Ddigartrefedd diwygiedig sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

   Ceisiwyd cyngor cyfreithiol ynghylch dilysrwydd penderfyniad y Cabinet ar 27 Chwefror 2015 i gadw'r "prawf bwriad" yn llawn; o ystyried y newid i'r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

   Yn ôl y farn gyfreithiol, gan nad oedd unrhyw newid i amodau a pharamedrau'r disgresiwn a roddir i gynghorau ynghylch cadw'r prawf bwriad, ac eithrio'r amserlen, mae'r penderfyniad yn dal yn gyfreithiol ddilys. Serch hynny argymhellwyd bod adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn argymell cymeradwyo'r penderfyniad gwreiddiol.

   Mae amserlen ddiwygiedig Llywodraeth Cymru yn gofyn i gynghorau wneud eu penderfyniad o ran y prawf bwriad, ei gyhoeddi a rhoi gwybod i Lywodraeth

Cymru am hyn, o leiaf pedwar diwrnod ar ddeg cyn 1 Gorffennaf 2015.

Cafodd penderfyniad gwreiddiol y Cyngor ei gynnwys mewn llythyr at Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor o fewn yr amserlen ddiwygiedig.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y penderfyniad yn cyfrannu at Ganlyniad 4 y Cynllun Mawr sy'n nodi:

"Teuluoedd diamddiffyn yn Sir Ddinbych yn cael cymorth i fyw'n rhydd o dlodi, lle medrent fod yn annibynnol a ffynnu"

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni fydd unrhyw gost ychwanegol; ond fe ddylai'r ffordd arfaethedig o weithio gyda theuluoedd "digartref yn fwriadol" ysgafnhau'r baich ar wasanaethau eraill y Cyngor, yn enwedig Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

Mae'r penderfyniad a argymhellir yn ymwneud â chadw'r sefyllfa bresennol o ran "digartrefedd bwriadol" a bydd unrhyw gost sy'n gysylltiedig â galluogi teuluoedd "digartref yn fwriadol" i gael mynediad i denantiaeth breifat wedi ei chynnwys yn y gyllideb ar gyfer y Tîm Datrysiadau Tai.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid yw'r argymhelliad i beidio â newid y "prawf bwriad" yn gwahaniaethu nac yn cael effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu "nodweddion a ddiogelir" fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

8. **Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Y cyngor gan y Gwasanaethau Democrataidd yw nad oes angen ymgynghori â'r Pwyllgorau Archwilio.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Ni fydd unrhyw gost ychwanegol; ond fe ddylai'r ffordd arfaethedig o weithio gyda theuluoedd "digartref yn fwriadol" ysgafnhau'r baich ar wasanaethau eraill y Cyngor, yn enwedig Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

Mae'r penderfyniad a argymhellir yn ymwneud â chadw'r sefyllfa bresennol o ran "digartrefedd bwriadol" a bydd unrhyw gost sy'n gysylltiedig â galluogi teuluoedd "digartref yn fwriadol" i gael mynediad i denantiaeth breifat wedi ei chynnwys yn y gyllideb ar gyfer y Tîm Datrysiadau Tai.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Derbynnir nad yw’r penderfyniad a argymhellir yn cyflwyno unrhyw risg.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Tai (Cymru) 2014: Rhan 2 Digartrefedd: Adran 78, Penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb.

Deddf Llywodraeth Leol 1972: Adran 111